



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Feithrin Sain Dunwyd
Coleg Yr Iwerydd
Sain Dunwyd
Bro Morgannwg
CF61 1WF**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|-------------------|--|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© **Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 11/02/2019

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yn hen gampfa Coleg Yr Iwerydd ym mhentref Sain Dunwyd yw Cylch Chwarae Sain Dunwyd. Caiff ei redeg gan bwyllgor rheoli, ac mae'n cyflogi pedwar aelod o staff, gan gynnwys arweinydd y lleoliad, sydd wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2017.

Mae'r lleoliad wedi cofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 19 o blant rhwng dwy a hanner oed a phump oed. Adeg yr arolygiad, roedd 14 o blant tair oed ar y gofrestr, ac mae pob un ohonynt yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae gan ychydig iawn o blant angen dysgu ychwanegol wedi'i nodi. Mae pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith, ac nid yw unrhyw un o'r plant yn siarad Cymraeg gartref. Arolygodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) y lleoliad ddiwethaf ym mis Chwefror 2017, ac ym mis Hydref 2013 yr arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf.

Crynodeb

| | |
|---|-----------|
| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu medrau
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau siarad a gwrando
- Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithio'n dda â'i gilydd wrth iddynt chwarae, ac maent yn ymddwyn yn dda
- Mae ymarferwyr yn bodloni anghenion y plant yn dda
- Mae ansawdd yr addysgu'n dda

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r lleoliad yn darparu gofal o ansawdd da ac addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol
- Mae gan arweinydd y lleoliad weledigaeth glir ar gyfer gwella
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm
- Mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau mewn llawer o feysydd o'i waith
- Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau buddiol sy'n gwella'r ddarpariaeth, ac yn datblygu medrau plant yn dda

Argymhellion

- A1 Darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu eu medrau datrys problemau a meddwl yn dda
- A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd heriol addas i blant ddatblygu eu medrau yn annibynnol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau yn y lleoliad gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Gwnânt gynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu medrau o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da â datblygu eu medrau siarad a gwrando. Maent yn gwrando'n dda ar ymarferwyr ac yn siarad ag eglurder sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r rhan fwyaf o blant yn fodlon siarad ag oedolion nad ydynt yn gyfarwydd â nhw, ac yn defnyddio ystod dda o eirfa. Er enghraifft, maent yn disgrifio peli gwlan cotwm y maent yn eu glynu ar eu lluniau fel rhywbeth sy'n debyg i 'gandi fflos'. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus i ddisgrifio digwyddiadau gartref, er enghraifft wrth siarad am yr hyn roedd y 'coblyn drwg' yn eu tŷ wedi ei wneud y bore hwnnw. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno â chaneuon a rhigymau yn hyderus.

Mae pob un o'r plant yn mwynhau creu marciau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, maent yn arbrofi â gwneud siapiau ar y palmant yn yr ardal awyr agored. Maent yn deall bod ysgrifennu yn cyfleu ystyr, ac mae llawer ohonynt yn dehongli'r hyn y maent wedi'i ysgrifennu pan fyddant yn creu rhestrau o gleifion yn y feddygfa chwarae rôl. Mae ychydig o blant mwy abl yn dechrau ffurfio llythrennau y gellir eu hadnabod, fel y llythrennau yn eu henwau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau darllen cynnar defnyddiol ac yn mwynhau edrych ar lyfrau. Mae ychydig o blant yn dewis defnyddio llyfrau yn annibynnol, a disgrifio'r hyn sydd wedi digwydd ynddynt, fel esbonio bod Sali Mali yn ceisio pobi cacen a bod yr anifeiliaid wedi dwyn ei chynhwysion. Mae llawer o blant yn deall sut i ddal llyfrau'n gywir, ac yn dangos diddordeb yn eu cynnwys. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ac yn rhyngweithio'n dda pan adroddir stori iddynt ar ddiwedd y bore.

Fel rhan o arferion amser cylch, mae pob un o'r plant yn ymuno ag oedolion wrth gyfrif nifer y plant sy'n bresennol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif i 5 yn annibynnol, ac mae ychydig ohonynt yn cyfrif i 10 gyda chymorth. Maent yn datblygu geirfa fathemategol sylfaenol eang. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r deinosaurs mwyaf a lleiaf yn yr ardal byd bach. Mae llawer ohonynt yn enwi siapiau syml yn gywir, fel sgwâr a thriongl. Gydag anogaeth, maent yn disgrifio rhai o'u priodoleddau, er enghraifft trwy gyfrif nifer yr ochrau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu gwybodaeth a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn mwynhau chwarae â cheir â rheolydd o bell syml, ac yn deall sut gallant addasu eu symudiadau â rheolydd.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau echddygol manwl a medrau echddygol bras da. Maent yn gludo darnau bach o ddefnydd i'w llun ac yn gwthio berfa yn yr ardal awyr agored yn llwyddiannus. Fodd bynnag, prin yw'r plant sy'n defnyddio eu medrau meddwl neu ddatrys problemau mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau Cymraeg sylfaenol da. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau gan ymarferwyr ac yn ateb cwestiynau am sut maent yn teimlo, neu sut mae'r tywydd, yn hyderus. Mewn ychydig o achosion, mae plant yn defnyddio geiriau Cymraeg heb anogaeth, er enghraifft i ddisgrifio lliw'r cylch y maent yn sefyll arno.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau dod i'r lleoliad, ac maent yn ymgynffwrdd â'u harferion dyddiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hongian eu cotiau yn annibynnol cyn dewis pa weithgaredd i'w wneud ar ddechrau'r diwrnod. Mae pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael gofal da. Maent yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gwrandao ar eu meddyliau a'u pryderon, ac yn ymateb iddynt. O ganlyniad, maent yn dewis yr hyn y mae arnynt eisiau ei wneud, a'r adnoddau y byddant yn eu defnyddio, yn hyderus ac yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd wrth chwarae, ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn dilyn arferion y lleoliad â brwdfrydedd. Er enghraifft, mae bron pob un o'r plant yn cymryd rhan yn brysur pan fydd yn 'amser tacluso'. Mae'r rhan fwyaf o blant yn aros yn amyneddgar i gymryd eu tro i ddefnyddio adnoddau neu wrth chwarae gemau. Mae ganddynt fedrau cymdeithasol da, maent yn siarad yn synhwyrol â'i gilydd yn ystod amser byrbryd ac yn ateb cwestiynau gan bobl sy'n ymweld â'r lleoliad yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwybod pwysigrwydd golchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled. Maent yn deall bod bwyta ffrwythau yn dda iddynt, a bod yfed dŵr neu laeth yn ddewis iachach na "phop pefriog". Maent yn dysgu gofalu am eu hanghenion eu hunain yn dda, er enghraifft wrth wisgo eu sliperi eu hunain pan fyddant yn dod i mewn, neu'n gwisgo eu cotiau a'u hesgidiau glaw i fynd y tu allan.

| | |
|--|-----------|
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|--|-----------|

Profiadau dysgu: Da

Mae ymarferwyr yn bodloni anghenion plant yn dda. Maent yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd, sy'n llwyddo i ennyn diddordeb bron pob un o'r plant. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau darganfod am gynhwysedd wrth chwarae â mesurau a phadellau yng nghegin fwd y lleoliad. Mae ymarferwyr yn seilio eu cynllunio yn gadarn ar fframwaith y cyfnod sylfaen, ac egwyddorion dysgu trwy brofiadau uniongyrchol o ansawdd da. Maent yn ystyried safbwyntiau plant yn briodol trwy drafod beth yr hoffent ei ddysgu, a sut, ar ddechrau testun newydd. Gwnânt ddefnydd arbennig o dda o dir helaeth y coleg. Er enghraifft, maent yn ymweld â'i draeth preifat ac yn marcio maint gwahanol forfilod gan ddefnyddio llinyn.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu ystod eang o fedrau. Maent yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant trwy brofiadau ymarferol. Er enghraifft, maent yn annog plant i ymarfer eu medrau creu marciau yn yr amgylchedd awyr agored trwy greu siapiau a llythrennau ar y palmant, ac mewn hambwrdd o ewyn y tu allan i'r dosbarth meithrin. Mae ymarferwyr yn

datblygu gwybodaeth plant am iaith fathemategol yn dda. Er enghraifft, maent yn siarad â'r plant am ba ddeinosor yw'r hiraf, y byrraf, y mwyaf a'r lleiaf wrth chwarae yn yr ardal byd bach. Trwy gydol y sesiwn, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau cyfrif, fel cyfrif faint o blant sy'n bresennol yn ystod amser cylch. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau datrys problemau a'u medrau meddwl. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddatblygu medrau TGCh syml.

Mae'r lleoliad yn datblygu medrau Cymraeg plant yn dda trwy ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd trwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, maent yn annog plant i siarad am sut maent yn teimlo, a sut mae'r tywydd, ar ddechrau'r sesiwn.

Addysgu: Da

Mae pob un o'r ymarferwyr yn cynnal perthynas gefnogol a gofalgwr gyda phlant. Maent yn disgwyl y gorau o'r plant ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau cynaledig. Maent yn cydnabod ac yn canmol eu cyflawniadau ac yn ymateb i'w cyfraniadau'n dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgysylltu'n dda â'u tasgau ac yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau. Mae gan bob un o'r ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o sut dylai plant ymddwyn. Maent yn defnyddio canmoliaeth yn dda i annog ymddygiad da, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ymddygiad annerbyniol yn dyner ond yn gadarn.

Mae ymarferwyr yn fodolau rôl iaith da ar gyfer y plant. Maent yn holi plant yn bwrpasol i'w symud ymlaen yn eu dysgu, ac asesu eu dealltwriaeth. Gwnânt hyn yn arbennig o dda wrth helpu plant i ddatblygu eu medrau trwy weithgareddau y maent yn eu dewis drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn gofyn cwestiynau meddylgar i gefnogi datblygiad iaith plant wrth iddynt chwarae yn y feddygfa chwarae rôl. Ceir cydbwysedd da rhwng tasgau y mae ymarferwyr yn eu harwain, a gweithgareddau y mae plant yn eu dewis drostynt eu hunain. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn llwyddo i gynllunio amgylchedd dysgu digon ysgogol a heriol i bob un o'r plant wneud cynnydd yn effeithiol pan fyddant yn gweithio'n annibynnol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau defnyddiol i arsylwi plant ac asesu eu cynnydd. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi medrau penodol y mae angen i blant eu datblygu ymhellach, a'u helpu i gynllunio'n llwyddiannus i fodloni eu hanghenion.

Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am les a chynnydd eu plant trwy adroddiadau a chyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd hapus, croesawgar a difyr. O ganlyniad, mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ymgynefino'n gyflym. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o fyw yn iach yn dda. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn dod â bwyd iach yn unig gyda nhw ar gyfer amser byrbryd. Defnyddiant hyn fel cyfle i siarad â'r plant am y mathau o fwyd a diod sy'n helpu i ni dyfu, a'r rheiny nad ydynt mor dda i ni. Mae ymarferwyr yn gadael i blant fynd ar dir y coleg bob dydd, er mwyn iddynt allu gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Maent yn annog plant i olchi eu dwylo cyn bwyta, ac ar ôl defnyddio'r toiled. Mae hyn yn eu helpu i ddod yn gyfrifol am eu hylendid personol.

Mae ystod eang o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, diwylliannol, moesol a chymdeithasol plant yn dda. Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth ddiwylliannol plant yn effeithiol trwy fynd â nhw i weld perfformiadau byw yn theatr y coleg lleol, a darparu cyfleoedd iddynt glywed cerddoriaeth sy'n cael ei chwarae iddynt gan riant sy'n gerddor proffesiynol. Maent yn datblygu synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod yn dda trwy annog plant i blannu hadau a'u gwyllo'n tyfu yn eu rhandir, a threulio amser tawel yn gwranddo ar y tonnau yn ystod ymweliad â'r traeth. Mae'r lleoliad wedi dechrau helpu plant i ddysgu am ailgylchu a chompostio. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae ymarferwyr yn nodi anghenion dysgu ac emosiynol datblygol y plant yn brydlon, ac yn eu cynorthwyo'n briodol. Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda ag asiantaethau allanol i gael cyngor pan fydd angen. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'r therapydd lleferydd i gynorthwyo disgyblion ag anghenion iaith penodol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r amgylchedd dysgu yn groesawgar, yn olau ac yn ddifyr. Mae ymarferwyr yn trefnu'r gofod yn dda i ddarparu cyfleoedd da i blant archwilio pob un o feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Maent yn cynllunio'r meysydd hyn yn ofalus i ennyn diddordeb plant, a sicrhau eu bod yn gallu defnyddio adnoddau yn annibynnol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau'r ardal byd bach deinosoriaid a'r feddygfa yn yr ardal chwarae rôl.

Caiff pob un o'r plant yr un cyfle i elwa ar yr holl weithgareddau a meysydd dysgu. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi a chydabod cyflawniadau plant yn dda trwy arddangos a dathlu eu gwaith. Maent yn gweddu adnoddau'n dda i anghenion a diddordebau plant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o dir helaeth y coleg a'i lleoliad. Mae'r rhain yn cynnwys y traeth preifat, coetir a fferm. O fewn y rhain, mae ymarferwyr wedi creu ardaloedd penodol lle gall plant ddatblygu ystod o fedrau, fel cegin fwdlyd, ardal goedwig a rhandir. Ar hyn o bryd, mae'r lleoliad yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth ymarferwyr o sut i ddatblygu dysgu plant yn llwyddiannus yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau dysgu cynyddol effeithiol sy'n gwneud y gorau o'r ardaloedd hyn. Er enghraifft, maent yn annog plant i gasglu deunyddiau naturiol yn yr ardal goedwig i greu gwaith celf llawn dychymyg.

| | |
|--|-----------|
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|--|-----------|

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan arweinydd y lleoliad weledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus, y mae'n ei rhannu'n dda â phob un o'r staff a'r rhieni. Ers dechrau yn ei rôl, mae hi wedi llwyddo i greu ethos tîm cryf ymhlith yr ymarferwyr. Mae'n dirprwyo cyfrifoldebau'n dda. Mae pob un o'r staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'n modelu disgwyliadau ac

ymddygiadau uchel sy'n arwain at welliant parhaus yn ansawdd y ddarpariaeth y mae'r lleoliad yn ei chynnig. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n dda ar welliannau i ansawdd y ddarpariaeth, ac yn cefnogi mentrau newydd yn llwyddiannus, fel cyflwyno system gweithwyr allweddol. Ceir perthnasoedd cadarnhaol rhwng ymarferwyr, rhieni a phlant, ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at ymdeimlad o gymuned a diben ar y cyd. Mae pwyllgor rheoli'r lleoliad yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad, a'r meysydd i'w gwella.

Mae arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau gwerthuso'n llwyddiannus i gyfleu safonau uchel, ac adolygu perfformiad pob aelod o staff unigol. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau parhaus gydag ymarferwyr am eu gwaith, yn ogystal â gosod targedau defnyddiol trwy gyfarfodydd gwerthuso ffurfiol. Mae arweinwyr yn nodi anghenion hyfforddi unigolion yn briodol, ac yn cynorthwyo ymarferwyr i elwa ar ystod o gyfleoedd hyfforddiant allanol buddiol yn effeithiol. Mae hyn yn cefnogi gwelliant parhaus yn y lleoliad yn dda. Er enghraifft, mae hyfforddiant mewn datblygu medrau Cymraeg staff wedi cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Gwella ansawdd: Da

Mae arweinydd y lleoliad, ynghyd ag ymarferwyr, wedi sefydlu systemau defnyddiol i sicrhau eu bod yn adolygu gwaith y lleoliad yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â rhieni trwy holiaduron ffurfiol a thrafodaethau anffurfiol, yn ogystal ag ystyried cyngor gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae agwedd gadarnhaol pob un o'r ymarferwyr tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth yn amlwg ar draws y lleoliad. O ganlyniad, mae arweinydd ac ymarferwyr y lleoliad yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad, a'r meysydd i'w gwella.

Mae'r lleoliad yn cynnal adolygiad blynyddol ffurfiol o ansawdd ei waith. Mae hyn yn helpu arweinwyr i nodi targedau defnyddiol ar gyfer gwella, sy'n cysylltu'n dda ag anghenion plant. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi canolbwyntio ar wella dealltwriaeth plant o batrwm fel rhan o'u datblygiad mathemategol, ac mae'n annog plant i ymateb i gyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn datblygu gweithdrefnau cryf sy'n helpu arwain at gynnydd rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys y ffocws diweddar ar wella'r ffordd y mae ymarferwyr yn defnyddio'r ddarpariaeth awyr agored i ddatblygu medrau plant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau buddiol sy'n cefnogi gwelliannau i ddarpariaeth a datblygiad medrau plant yn dda. Er enghraifft, mae gweithio'n gadarnhaol mewn partneriaeth â'r coleg lleol y mae'r feithrinfa wedi'i lleoli ynddo, yn galluogi ymarferwyr i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu difyr ac ysgogol ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol iawn gyda rhieni. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o anghenion pob plentyn, ac yn eu galluogi i hysbysu rhieni am y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd hynod dda o fedrau rhieni i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y plant. Er enghraifft, trwy gyflwyno sesiynau cerddoriaeth a pherfformiadau drama.

Mae arweinydd y lleoliad yn gweithio'n effeithiol gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i fonitro ansawdd y ddarpariaeth, nodi meysydd i'w gwella, a sicrhau

cyfleoedd hyfforddi buddiol. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn nifer o feysydd gwaith y lleoliad. Er enghraifft, fe wnaeth ymarferwyr elwa ar hyfforddiant ar sut i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn yr awyr agored, gan arwain at welliannau yn ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn gweithio i ddatblygu ei bartneriaeth ag ysgolion bwydo ac mae wedi gosod hyn fel blaenoriaeth ar gyfer gwella. Mae gan y lleoliad gysylltiadau defnyddiol â'r gymuned leol sy'n cyfrannu'n dda at ddysgu a phrofiadau plant. Er enghraifft, mae plant yn elwa ar ymweld â fferm gyfagos i ddysgu am yr anifeiliaid.

Rheoli adnoddau: Da

Mae arweinwyr yn defnyddio ymarferwyr yn dda ac yn defnyddio adnoddau yn effeithlon i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd cryf mewn datblygu eu medrau a chynnal lefelau da o ran lles. Maent yn sicrhau bod digon o staff sydd â chymwysterau da, yn brofiadol ac yn hyfforddedig i fodloni anghenion y plant yn dda.

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod ymarferwyr yn elwa ar hyfforddiant yn rheolaidd i gefnogi eu hanghenion datblygiad proffesiynol unigol a blaenoriaethau'r lleoliad. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi elwa ar ymweld â lleoliad arall i'w helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddarpariaeth o ansawdd da yn y cyfnod sylfaen.

Mae arweinydd y lleoliad yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r pwyllgor rheoli i reoli cyllideb y lleoliad yn effeithiol. Maent wedi rhoi systemau cryf ar waith i adolygu gwariant yn rheolaidd.

Yn sgil y safonau da, y gofal ansawdd da, a'r addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Rhestr termau

| | |
|---|---|
| AGC | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn is-adran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| Athro ymgynghorol awdurdod lleol | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| Y Cyfnod Sylfaen | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA) | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| Meysydd Dysgu | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol |
| Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|--|
| Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP) | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| Mudiad Meithrin | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |